Rôl craffu o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

16 a 25 Ionawr 2018, Stadiwm Swalec, Caerdydd

Gweithdy 1 allbynnau - Amgylchedd

Nodwch un peth y byddwch yn ei wneud yn wahanol yn dilyn y gweithdy hwn.
Y cynadleddwyr i ysgrifennu hwn ar nodyn gludiog a'i osod ar y wal/siart troi.

Rwy'n mynd i fynd â'r pwyllgorau craffu allan ar daith i siarad â'r etholwyr am y materion allweddol yr hoffent i gynghorwyr graffu arnynt. Rwyf am iddynt gyflwyno materion a safbwyntiau y maent wedi'u ceisio'n annibynnol. Rwyf am i'r cynghorwyr drafod yr eitemau ar eu rhaglen waith gyda'r etholwyr a chanfasio eu barn.

Edrych ar sut i symud i ffwrdd o'r drefn arferol – rhoi 'lle' i ymchwilio'n ddyfnach a chanolbwyntio ar effaith.

Annog eraill i gymryd rhan neu gynnal mwy o gyfarfodydd gyda phobl.

Dod o hyd i themâu sy'n bwysig i'ch trigolion.

Ystyried sut i ddechrau sgwrs ynghylch yr hyn sydd bwysicaf i bobl, a defnyddio hynny i lywio'r broses o ddatblygu ein gwaith craffu.

Meddwl mwy am y ffordd rydym yn cysylltu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau â phobl leol a pha drefniadau pellach sydd eu hangen arnom ar gyfer cyfranogiad uniongyrchol.

Ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn helpu i lunio'r agenda graffu, wedyn craffu ar yr hyn sy'n berthnasol i'r gymuned.

Gwerthuso ar ba gam o fewn proses y caiff y gwaith craffu ei gyflawni (cyn / ar ôl penderfyniadau).

Wrth archwilio prosesau ymgynghori, rhoi mwy o ffocws ar ba mor eang oedd yr ymgynghoriad gan sicrhau bod 'pobl go iawn' wedi cael cyfle i leisio eu barn.

Cynnwys pobl eraill yn gynharach

Gweithio mewn gwahanol ardaloedd / gwrando / ymgysylltu / mwy o ymgynghori. Pam rydym yn darparu rhai gwasanaethau penodol?

Ailddiffinio 'craffu' er mwyn iddo fod yn fwy cyson â chanlyniadau llesiant y rhai a wasanaethir gennym a'r 'pum ffordd o weithio' yn gyffredinol.

Ei wneud yn fwy hygyrch a chynhwysol i'r holl bartïon dan sylw.

Ystyried dulliau o roi gwybod i'r cyhoedd am benderfyniadau ar ôl ymgysylltu â nhw.

Bod yn glir ynghylch 'y pwrpas' – beth rydym yn ceisio ei gyflawni a pham?

Rhoi mwy o adborth ynghylch pam mae penderfyniadau a pholisïau wedi cael eu gwneud.

Cyfathrebu dwyffordd gwell â'r rhai sy'n cyfrif – h.y. y cymunedau.

Awgrymu y dylai fy Nghyngor ofyn i mi pa dri phwnc yr hoffwn gael fy hysbysu neu fy holi yn eu cylch yn fy nghymuned - gwneud hyn ar ffurflen y gofrestr etholwyr er mwyn iddo fod yn hawdd!

Mae angen gwella'r ffordd rydym yn cynnwys dinasyddion yn y broses graffu fel bod eu llais yn cael ei glywed. Nid yw'r dulliau presennol yn gweithio.

Rhoi gwybod i'r gymuned am ganlyniadau gwaith craffu.

Craffu'n ochrol yn ogystal ag yn llorweddol.

Mae angen newid mewn diwylliant ar bob lefel – o Lywodraeth Cymru i Awdurdodau Lleol a BGCau. Er mwyn i Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol weithio, rhaid i'r swyddogaeth craffu gael llais estynedig, a rhaid gwrando ar y llais hwnnw.

Ni ddylai gwaith craffu fod yn gysylltiedig â chyllidebau blynyddol. Dylai'r gwaith a'r cynlluniau anelu at weithio yn yr hirdymor gan ystyried cyllidebau blynyddol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt. Ni allwch wneud cynnydd na chael effaith ar genedlaethau'r dyfodol os ydych yn gweithio mewn cyfnodau cyfyngol o 12 mis.

Amodau – gwybodaeth ddigonol, ddefnyddiol – helpu i wneud penderfyniadau a deall effaith. Cyd-barch – pawb yn cydweithio tua'r un nod.

Mae angen newid diwylliant er mwyn craffu'n effeithio, h.y. meddwl am yr hirdymor.

Sut mae defnyddio gwaith craffu i newid diwylliant? Sut mae craffu'n rhan o'r broses ac nid dim ond yn canolbwyntio ar ganlyniadau?

Mae angen symleiddio'r hyn y mae angen i ni ei wneud. Ni ddylid gorgymhlethu pethau gyda threfniadau llywodraethu.

Craffu ym mhob rhan o'r sefydliad – nid dim ond ar y brig. Hefyd – craffu o fewn sefydliadau ond hefyd craffu rhwng sefydliadau. Gan ein bod ni i gyd yn gweithio gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio i gyflawni nodau cyffredin – saith nod llesiant.

Craffu wedi'i wreiddio ym mhob rhan o sefydliadau. Pob corff yn gwbl ymwybodol o rôl craffu.

Mae angen gweithio gyda phartneriaid i wella dealltwriaeth o graffu a gwella'r gwaith craffu ei hun.

Nid yw'r fforwm agored cyhoeddus 15 munud o hyd yn ffordd effeithiol o gynnwys pobl yn y broses o lywio eu dyfodol!

Cynnwys partneriaid ehangach a sicrhau eu bod yn cymryd rhan weithredol mewn gwaith craffu yn y dyfodol.

Mae'n ymddangos bod pawb yn gwneud yr un peth â ni!

Cynnwys pobl eraill mewn gwaith craffu (y cyhoedd / cymunedau / y trydydd sector ac ati)

Hoffi'r syniad o gael hyfforddiant ar y cyd â sefydliadau partner – canlyniadau ar y cyd – hyfforddiant ar y cyd

Mae angen cynnwys pawb ac ymgynghori â nhw er mwyn llwyddo.

Mae angen i waith craffu gael ei herio ym mhob rhan o'r sefydliad.

“Rhoi'r bobl o flaen y broses” – ystyried cymorth emosiynol yn ogystal ag ariannol

Trafod â'm Pwyllgor Craffu sut y gallwn ymgysylltu'n fwy effeithiol ag aelodau o'r cyhoedd

Ystyried creu cronfa arloesi er mwyn i sefydliadau'r trydydd sector allu rhoi cynnig ar syniadau newydd yn unol â Deddf GSC (a dysgu ohonynt)

Craffwyr i fod yn ymwybodol o bwysigrwydd eu rôl a'r pŵer sydd gan waith craffu o ran dylanwadu

Sut rydym yn rhannu arfer da a ffyrdd arloesol o weithio o ran sut rydym yn craffu mewn amgylchedd cydweithredol

Llai o ffocws ar gyllideb a mwy o ffocws ar wneud penderfyniadau sy'n bwysig

Llunio blaengynllun gwaith ar gyfer y pwyllgor craffu yn seiliedig ar y cynllun gwaith gweithredol a'r gofrestr risg – mwy o ffocws

Rhoi rhagor o ystyriaeth i ddefnyddio'r gofrestr risg gorfforaethol fel rhywbeth ychwanegol i'r cadeiryddion craffu ei weld wrth ystyried blaengynlluniau gwaith.

Gwneud cyfarfodydd yn drafodaeth â ffocws pendant ac nid yn gyfarfod pwyllgor sych. Galluogi'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill i gymryd rhan – gofyn cwestiynau a lleisio barn

Mwy o hyfforddiant a chymorth i aelodau etholedig mewn perthynas â goblygiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Llai o eitemau i graffu arnynt fel bod modd ystyried eitemau yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a mwy o gyfranogiad

Gwella dealltwriaeth o'r ffordd y gellir/y dylid defnyddio'r pum ffordd o weithio i lywio'r broses gwneud penderfyniadau ar y cam cynharaf.

Mae craffu'n heriol i mi yn y parc cenedlaethol o safbwynt llywodraeth leol.

Byddaf yn cael eglurder ynghylch pryd, ble a sut mae gwaith craffu'n digwydd, a chan bwy yn y sefydliad i fod yn ‘aflonyddwch adeiladol’